Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 461 IONAWR 2024 | AM DDIM

## PLYGAIN GORSEINON

-HEINI GRUFFUDD

Cynhaliwyd gwasanaeth plygain llwyddiannus yn Eglwys St Catherine, Gorseinon, nos Sul 21 Ionawr.

Yn ôl trefn draddodiadol y plygain, yn dilyn gwasanaeth byr cafodd partion, unawdwyr a grwpiau ganu carolau plygain yn ddigyfeiliant, mewn dau gylch.

Roedd hi'n noson enbyd o stormus, a daeth ychydig llai na'r llynedd i'r gwasanaeth o dan ofal y Ficer Adrian Morgan. Roedd y canu'n hyfryd, a chafwyd gwledd ar ôl y gwasanaeth.

Un o'r partion oedd Côr Tŷ Tawe, o dan ofal eu harweinydd Bethan Wynne Phillips. Daeth deunaw o'r côr i ganu. Bydd y côr yn canu nesaf nos Fercher, 28 Chwefror yn nathliad Gŵyl Ddewi Capel y Nant, Clydach.



## NOSON LAWN YN NHŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Daeth llond neuadd i Dy Tawe i ddathlu'r Nadolig gyda Chôr Tŷ Tawe. Bethan Wynne Phillips arweiniodd y noson. Canodd y côr bedair eitem ac roedd sawl eitem arall. Canodd y gynulleidfa niferus gyda hwyl. Codwyd tua £300 i Dŷ Hafan.



## TOMOS YN LLANDEILO FERWALLT

-DAFYDD WILLIAMS

Tomos Jones, pennaeth Menter Iaith Abertawe oedd y siaradwr gwadd mewn cyfarfod o Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt.

Disgrifiodd holl waith y Fenter wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal - o redeg Tŷ Tawe a'i siop brysur i drefnu rhaglenni ar gyfer dysgwyr yr iaith yn yr ardal




## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

-DAVID GWYN JOHN

Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol o'r flwyddyn yn Festri Seion Newydd nos Iau Ionawr 18fed. Ein gwesteion am y noson oedd Parti Llwchwr, dan arweiniad Mrs Janet Jones. Mae'r Parti wedi cyfrannu'n helaeth at ddiwylliant ein hardal ac roedd yn bleser cael eu cwmni unwaith eto yn Nhreforys wrth iddynt gyflwyno amrywiaeth o ddarnau cerddorol i'n difyrru. Er y tywydd oer, fe ddaeth cynulliad teilwng o 45 i fwynhau canu disgybledig y parti. Cyfeilydd y Parti oedd Huw Rees. Yn feistrolgar, fe gyflwynodd Rhys Griffiths darn allan o " Wythnos yng Nghymru Fydd" gan Islwyn Ffowc Elis a chanodd unawd o waith y cerddor E. T . Davies. Roedd y noson wrth fodd y gynulleidfa. Diolchwyd i'r parti am noson ragorol, a dymunwyd yn dda iddynt ar gyfer eu perfformiad yn Neuadd Albert, Llundain, yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cyflwynwyd i'r aelodau y raglen am 2024. Gellir ymuno â'r Gymdeithas am £10 y flwyddyn neu £2 y cyfarfod. Cynhelir y cyfarfodydd ar y drydedd nos Iau yn fisol am 7.00.y.h. yn Festri Seion Newydd , SA6 8EB, ac estynnir croeso arbennig i ddarllenwyr " Llais." a'u ffrindiau. Mae manylion ymhellach ar gael oddi wrth y Cadeirydd, David Gwyn John ( 01792 773507).



## PRENTISIAETH NEWYDD

-LOWRI THOMAS

Mae prentisiaeth newydd wedi'i lansio drwy gydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a sefydliadau partner, ar ôl i ymchwil ddangos dirywiad pryderus yn y grefft draddodiadol o wydr lliw.

A new apprenticeship has been launched through a collaboration between the University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) and partner organisations, after research showed a worrying decline in the traditional craft of stained glass.

Eleni (2023), fe wnaeth y Gymdeithas Crefftau Treftadaeth roi crefft gwneud ac adfer ffenestri lliw traddodiadol ar raddfa fawr ar Restr Goch y Crefftau dan Fygythiad.

Wrth i'r farchnad ar gyfer comisiynau newydd leihau a demograffeg yr ymarferwyr heneiddio, ac wrth i gostau gynyddu a'r cyfleoedd leihau ar gyfer hyfforddiant ffurfiol, mae pryderon gwirioneddol ymhlith ymarferwyr am ddyfodol y grefft.

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, daeth Coleg Celf Abertawe ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Cymdeithas Prif Beintwyr Gwydr Prydain, Cwmni Anrhydeddus y Gwydrwyr, a gweithwyr proffesiynol y diwydiant at ei gilydd i lenwi'r bwlch.

Gyda'i gilydd, maen nhw wedi datblygu Prentisiaeth Crefftberson Gwydr Lliw newydd sbon a ariennir gan y llywodraeth, gyda'r Drindod Dewi Sant yn darparu hyfforddiant a'r Sefydliad Cadwraeth (ICON) yn cynnal yr asesu terfynol. Bydd prentisiaid yn astudio yn y Drindod Dewi Sant mewn blociau dros dair blynedd, gan ddilyn hyfforddiant mewn ystod gynhwysfawr o dechnegau crefft gwydr lliw.

Lansiwyd y brentisiaeth gan yr Athro Elwen Evans KC, Is-Ganghellor PCYDDS yn Ystafell Ddarllen y Brifysgol yng Nghanolfan Ddylunio Alex ddydd Gwener, Tachwedd 24. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys symposiwm o siaradwyr gan gynnwys Martin Crampin (CAWCS), Reinhard Kopf o'r Adran Dreftadaeth, Monchengladbach a Jasmine Allen, o'r Amgueddfa Gwydr Lliw yn Nhrelái, Caerdydd.

Arweiniwyd trafodaeth banel a sesiwn holi-ac-ateb gan Martin Crampin, gyda Jasmine Allen, Felicity Gray a Kim Collins, o Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg.



## MERERID YN YSBRYDOLI

-HEINI GRUFFUDD

Yr Archdderwydd Mererid Hopwood roddodd yr anerchiad cyntaf yng nghyfres Chwefror yn Amgueddfa Abertawe.

Barddoniaeth Abertawe oedd ei thestun. Llyfr Coch Hergest oedd ei man cychwyn, y llawysgrif bwysicaf yn y Gymraeg. Cafodd ei llunio ar gais Hopcyn ap Tomos, ryw ganrif ar ôl lladd Llywelyn yr Ail. Argyhoeddiad Mererid oedd bod Hopcyn, yn fonheddwr lleol, am sicrhau cof campweithiau llenyddol Cymru mewn cyfnod o ansicrwydd. Mae'r Llyfr Coch, sydd yn Llyfrgell Bodleian, Rhydychen, yn cynnwys y chwedlau cynnar, cofnodion hanes a gweithiau'r gogynfeirdd, beirdd y tywysogion.

Dyfynnodd Mererid farwnad enwog Gruffudd ap yr Ynad Coch i Lywelyn, cerdd a ddarluniai ddiwedd y byd, yn dilyn y farwolaeth.



Tri bardd o'r ugeinfed ganrif gafodd sylw ganddi wedyn, Dylan Thomas, Waldo Williams a Rowan Williams, ond cyn hynny dyfynnodd o dair cerdd Almaeneg gan Sarah Kirsch, a newidiodd ei genw o Ingrid, yn brotest yn erbyn gwrth-Iddewiaeth ei thad. Bu Sarah'n aros yng Nghaswell pan oedd ar gyfnod yn Abertawe, ac mae ganddi gerddi serch swynol gyda'r traeth yn gefndir.

Soniodd Mererid am allu Dylan Thomas yn y Gymraeg, ond canolbwyntiodd ar gerdd Waldo Williams, a fu yng ngharchar Abertawe am wrthod talu trethi adeg rhyfel Korea, Pa Beth yw Dyn? a chyfieithiad Rowan Williams ohoni. Mae gan y gerdd hon neges berthnasol i'r rhai sydd heddiw'n rhyfela:

Beth yw trefnu teyrnas? Crefft<br>
Sydd eto'n cropian.<br>
A'i harfogi? Rhoi'r cyllyll<br>
Yn llaw'r baban.

Gorffennodd Mererid trwy sôn am yr ymgyrch heddwch gan fenywod Cymru'n dilyn y rhyfel byd cyntaf.

Roedd asbri, angerdd a hiwmor Mererid wedi peri bod ganddi gynulleidfa wrth ei bodd.

## ELUNED KING YN ANELU AM FFRAINC

-HENI GRUFFUDD

Eluned King



Mae'n dda gallu edrych ymlaen ar weld un o gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-môr yn ennill y Tour de France.
Cymryd rhan yn y ras honno ym mis Awst yw uchelgais Eluned King, sy'n un i bedwar brawd a chwaer a fu yn Ysgol Bryn-y-môr. Mae gan Eluned gytundeb proffesiynol â thîm rasio cyfandirol Lifeplus Wahoo.
Y mis nesaf bydd Eluned yn cystadlu yn Dubai, ac mae'n frwd i newid o rasio trac i rasio heol. Enillodd hi fedal efydd ar y trac yng ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham yn 2022, yn rhan o dîm beicio Cymru.
Mae Eluned wedi dechrau astudio ym Mhrifysgol Nottingham, ac yn mwynhau cyfuno astudio a beicio.
Ei huchelgais yw ras wyth diwrnod y Tour de France, ac efelychu camp Geraint Thomas. Pob lwc iddi!

-

## NEWYDDION DIWEDDARAF YSGOL GYFUN GŴYR

### HERIO DYSGWYR MATh

-RHODRI EVANS (PENNAETH CYNORTHWYOL YSGOL GYFUN GŴYR)

Ers mis Medi, rydym wedi bod yn gweithio'n ddiwyd er mwyn herio'n dysgwyr mwyaf abl a thalentog. Dechreuwyd ar y gwaith hwn ym mis Medi pan wahoddwyd cwmni "Talk The Talk" i'r ysgol er mwyn cynnal gweithdy gyda dysgwyr. Ffocws yr hyfforddiant oedd meithrin medrau llafar y dysgwyr, ac erbyn diwedd y dydd roedd pob un o'r disgyblion wedi gwneud cyflwyniad unigol gerbron eu cyfoedion.

Er mwyn adeiladu ar yr hyfforddiant hwn, aethom i Siambr y Cyngor ym mis Tachwedd er mwyn mynychu hyfforddiant pellach ar sut i ddadlau a mynegi barn. Trefnwyd hyd gan Rwydwaith Seren a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

### CYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS RHWYDWAITH SEREN

O ganlyniad i'r hyfforddiant uchod, penderfynodd yr ysgol gystadlu yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus sirol Rhwydwaith Seren. Cynhaliwyd y twrnament yn Neuadd Sgeti a chystadlodd dysgwyr Blwyddyn 9 yn erbyn ysgolion uwchradd Abertawe. Yn ystod y dydd, bu'n rhaid i'r tîm ddadlau yn erbyn gwaredu arholiadau fel modd o asesu, o blaid cynnig cynhyrchion glendid yn rhad ac am ddim ac yn erbyn cosbi timoedd chwaraeon am ymddygiad eu cefnogwyr.




Braf iawn oedd gweld tîm Ysgol Gyfun Gwyr yn dod yn fuddugol ymhob rownd gan olygu eu bod wedi ennill y gystadleuaeth. Byddant nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli Abertawe yn ffeinal Cymru yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen yng nghanol mis Mawrth. Pob lwc iddynt!

### YR ADRAN CHWARAEON

-ADRIAN KILLA

Mae Lewis Edwards wedi bod yn chwarae i dîm rygbi dan 18 y Gweilch ac wedi derbyn lle yng ngharfan ymarfer Cymru - efallai enw i'r dyfodol!

Mae tîm pêl-droed blwyddyn 10 wedi symud ymlaen i'r 16 olaf yng Nghwpan Cymru ar ôl ennill cystadleuaeth rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (llun isod).



### TAITH I GAERDYDD

-JONATHAN WILLIAMS

Aeth disgyblion y tŷ i Fae Caerdydd am daith o gwmpas y Senedd ac i weld y sioe gerdd Aladdin yng Nghanolfan y Mileniwm.
Mwynhaodd bawb yn fawr iawn.






## CEFNOGI BANCIAU BWYD LLEOL

-CATRIN LYALL (IS-BENNAETH Y CHWECHED)

Efallai eich bod yn cofio darllen am ein Calendr Adfent Banc Bwyd yn rhifyn Rhagfyr. Wel, cawson ni ymateb gwych ac ar yr 20fed cawson ni gyfle i ddosbarthu'r nwyddau.

Trwy gydol mis Rhagfyr, roedd gwahanol flynyddoedd ysgol wedi cyfrannu gwahanol fwydydd a nwyddau ymolchi at y casgliad cyn iddyn nhw gael eu trosglwyddo i fanciau bwyd Gellifedw a Phenlan. Efallai i chi weld hanes ein hymgyrch ar newyddion y BBC, neu glywed yr eitem ar y radio. Roedden ni wrth ein boddau yn cael dosbarthu'r nwyddau i Gellifedw a Phenlan a chlywed am y gwahaniaeth byddai'r nwyddau yn ei wneud.









## TÎM RHANBARTH DAN 18 Y GWEILCH

-CATRIN LYALL

Llongyfarchiadau mawr i Nataya Lewis o fl 13 ar gael ei dewis i gynrychioli tîm rhanbarthol dan 18 y Gweilch. Esboniodd Nataya sut mae gwisgo crys y Gweilch yn gwneud iddi deimlo. "Mae'n anrhydedd gwisgo'r crys a chynrychioli'r Gweilch. Cefais fy ngeni a magu yn Abertawe, mae fy nheulu a ffrindiau yn byw yma a dyma lle dysgais i chwarae rygbi. Breuddwyd i gymaint o bobl yw hon ac mae'n fraint, yn enwedig o fod yn ferch yn y gamp. Mae'r cynnydd mewn rygbi menywod yn arbennig ac mae mor braf gweld y gefnogaeth gan y Gweilch wrth i'r merched gael eu cynrychioli hefyd. Dwi'n edrych mlaen at y gemau y tymor hwn!" Pob dymuniad da i ti Nataya!



## CWMNI DAWNS CENEDLAETHOL CYMRU

-EVIE HARRIS (DISGYBL BL. 13)

Dros gyfnod y Nadolig cefais i (Evie Harris) a Sienna Lorey (bl 12) y cyfle i berfformio ochr i ochr ag aelodau o Gwmni Dawns Genedlaethol Cymru yng nghanolfan Mileniwm yng Nghaerdydd. Roedd y darnau cyfoes a berfformiwyd yn ganlyniad i'r amserlen ddiflino o ymarferion yn arwain at y perfformiadau. Roedd ein darn ni yn arddywediad am 'Hunllef cyn y Nadolig' gan Tim Burtons. Gyda pherfformiad ysblennydd gan bob un o'r dawnswyr dawnus ac elitaidd cawsom gynnig i berfformio'r darn unwaith eto'r wythnos wedyn yn amgueddfa'r Glannau yn Abertawe. Ond, roedd yn rhaid i ni addasu'r darn o dywyll, dwfn a dirgel i siriol a llawen, yn llawn ysbryd Nadolig. Mewn ymarfer dwy awr cafodd darn newydd ei greu i ni ei berfformio. Roedd yn llwyddiant mawr a fwynhawyd gan bawb, gan ein hatgoffa pam ein bod yn caru'r gelfyddyd a gobeithio'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddawnswyr. Ar hyn o bryd, rydym yn ymarfer ar gyfer perfformiad sydd i ddod yn 'The Stars of Tomorrow' yn Theatr y Grand yn ogystal â pherfformiad sydd ar fin cael ei greu yn gweithio ochr yn ochr â Jack Philip, coreograffydd byd-eang cydnabyddedig. Bydd yr anturiaethau newydd a chyffrous hyn yn digwydd ym mis Chwefror. Dewch i'n cefnogi ac efallai ennyn eich cariad a'ch angerdd am ddawns yn ei ffurfiau niferus.





## CEISIADAU PRIFYSGOL

-CATRIN LYALL

Pob dymuniad da i flwyddyn 13 sydd wrthi yn anfon eu ceisiadau prifysgol – a derbyn gwahoddiadau i gyfweliadau a chynigion! Edrychwn ymlaen at glywed newyddion da yn deillio o'r cyfweliadau sydd i ddod hefyd!


## GWEITHGAREDDAU IAITH GYMRAEG AM DDIM I DEULUOEDD DROS HANNER TYMOR.

Bydd rhaglen o weithgareddau iaith Gymraeg i blant, pobl ifanc, a theuluoedd ar gael yn rhad ac am ddim ar draws Abertawe yn ystod hanner tymor diolch i Menter Iaith Abertawe a chefnogaeth gan gronfa COAST Cyngor Sir Abertawe.
















Mae yna rywbeth at ddant pawb dros gyfnod yr wythnos, gyda sesiynau ar gyfer pob oedran o'r meithrin hyd at y chweched dosbarth. Mae'r rhaglen yma yn rhan o waith ehangach Menter Iaith Abertawe i gynnig profiadau diwylliannol iaith Gymraeg o safon yn y ddinas, ac i sicrhau cyfleoedd cyson i bawb yn yr ardal mwynhau a defnyddio'r iaith Gymraeg.

Rhwng dydd Llun y 12fed a dydd Mercher y 15fed o Chwefror, bydd cynlluniau chwarae iaith Gymraeg Menter Iaith Abertawe yn dychwelyd - y tro yma ar safle Ysgol Gyfun Gŵyr yn Nhre-gŵyr. Bydd y sesiynau yma'n rhedeg yn ddyddiol rhwng 10:00-12:00, ac yn cynnwys celf a chrefft, chwaraeon, sgiliau syrcas, a llawer mwy. Mae'r sesiynau yn cael eu harwain gan y plant, sy'n golygu bod y rhai sy'n mynychu yn gallu dewis y gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau fwyaf. Mae'r sesiynau ar gyfer plant wyth mlwydd oed ac yn hŷn, ond mae croeso hefyd i blant iau fynychu gydag oedolyn.

Yn dilyn llwyddiant sesiwn tebyg yn ystod gwyliau'r haf, bydd gweithdy cyfansoddi gyda'r cerddor Delyth McLean ar ddydd Iau'r 15fed. Bydd y sesiwn 3 awr yma yn dechrau am 11:00 yng nghanolfan Tŷ Tawe yng nghanol y ddinas, a bydd y rhai sy'n mynychu yn dysgu sgiliau a thechnegau cyfansoddi cyn creu cân wreiddiol ar y cyd cyn diwedd y sesiwn. Mae'r sesiwn yma yn addas i oedrannau 11-18.

Ar ddydd Gwener y 16eg, bydd Bardd Plant Cymru, Nia Morais, yn ymweld â Thŷ Tawe ar gyfer gweithdy barddoniaeth. Yn dechrau am 11:00, bydd y diwrnod yma yn cyflwyno'r bobl ifanc i farddoniaeth iaith Gymraeg mewn ffordd gyffrous ac egnïol trwy weithdai, perfformiadau, a gweithgareddau amrywiol. Mae'r sesiwn yma yn addas i flynyddoedd 10-13.

Yn cloi'r wythnos o weithgareddau ar ddydd Sadwrn y 17eg, bydd pâr o weithdai celf yn Nhŷ Tawe gyda'r artist Rhys Padarn. Bydd y gweithdai dwdlo cam-wrth-gam yma yn dysgu'r rhai sy'n mynychu sut i greu dyluniad arbennig mewn arddull eiconig Orielodl. Mae dau sesiwn ar gael - un am 11:00 ar gyfer blynyddoedd 3-6, ac yr ail am 13:00 ar gyfer blynyddoedd 7-9.

Ar ddydd Sadwrn y 10fed o Chwefror, bydd hefyd dwy sioe lawn dawnsio a chanu gyda Siani Sionc yn Nhŷ Tawe - mae'r sesiynau yma eisoes wedi eu llenwi. Mae llefydd cyfyngedig ar gael i archebu ar gyfer pob digwyddiad arall trwy menterabertawe.org/archebu.

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

02.02 - IVW24: Meinir Gwilym + Lo-Fi Jones (Tŷ Tawe)

09.02 - Huw Chiswell + Rhiannon O'Connor (Tŷ Tawe)

22.02 - Lleuwen: Emynau Coll y Werin (Mission Gallery)

02.03 - Gŵyl Croeso: Sage Todz + Luke RV (Elysium Gallery)

23.03 - Cowbois Rhos Botwnnog (The Bunkhouse)













Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Ionawr.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Chwefror 12fed trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO

DYDD MIWSIG CYMRU
WELSH LANGUAGE MUSIC DAY

# HUW CHISWELL

## + RHIANNON O'CONNOR

## 09.02.24 TŶ TAWE, ABERTAWE



19:00 / £10
MENTERABERTAWE.ORG

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

menter iaith abertawe